


Egwyddorion CYNLLUNIO



sy'n gysylltiedig â gweledigaeth, gwerthoedd
a diwylliant ysgol




**EIN GWELEDIGAETH
A'N GWERTHOEDD**

Amcanion

- Darparu trosolwg o'r prosesau meddwl ac ystyriaethau i ysgol yn ystod y broses gynllunio.
- Gweithredu fel man cychwyn i rai ysgolion a rhoi sicrwydd i ysgolion sydd eisoes wedi cyflwyno prosesau cynllunio newydd.
- Modelu ethos CiG, hynny ydy, rhoi cefnogaeth i ysgolion ond osgoi rhoi cyfarwyddiadau. (Nid ein bwriad ydy darparu dogfennau cynllunio wedi'u paratoi yn barod).
- Rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i bob sector.



Egwyddorion Cynllunio



Beth ydy diben ein cynllunio?

- Ar gyfer pwy ydym ni'n cynllunio?
- Ydy o'n ddefnyddiol i uwch arweinwyr / athrawon / disgyblion?
- Ydy o'n helpu i ddangos cynnydd?
- Sut mae asesu yn hysbysu ein cynllunio?
- Ydy o'n or-gymhleth? Oes angen i'r holl gynllunio gyfeirio at yr holl elfennau, er enghraifft, y 4 diben, Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, Sgiliau Cyfannol, ayb ?
- Sut ydym yn hyrwyddo dull cyson ar draws yr ysgol?

Dull ymholi



'Pe baem ni'n symud i blaned newydd, beth fuasai ei angen arnom i oroesi yno?'

'Pe baem ni'n symud i blaned newydd, ni fuasai angen inni fynd ag anifeiliaid gyda ni.'

Penawdau Pynciau ar gyfer bob tymor



Banciau Pynciau



Wythnosau Ffocws

MDaPh : Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig 3: Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Trwy sylwi ar **amrywiaeth pethau byw**, a sut maen nhw'n **ymwneud â'u hamgylchedd**, gall dysgwyr ddod i **ddeall sut mae'r rhain wedi esblygu dros gyfnodau sylweddol o amser**. Mae angen **amodau ac adnoddau penodol ar bob peth byw er mwyn goroesi**, a gall fod yn rhaid iddyn nhw gystadlu ag organebau eraill er mwyn gwneud hynny. **Mae pobl yn rhan o'r byd hwn o bethau byw**, a gall **ein penderfyniadau a'n gweithredoedd, ynghyd â'r broses ddetholiad naturiol, gael effaith sylweddol ar amrywiaeth bywyd**. Mae gwybod am **strwythurau a swyddogaethau pethau byw** yn galluogi dysgwyr i **ddeall sut mae'r rhain yn tyfu, datblygu ac atgenhedlu'n llwyddiannus**. Mae datblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llwyddiant organebau yn caniatáu i ni wneud penderfyniadau gwybodus am ein hiechyd corfforol a'n heffaith ar y byd naturiol, gan gynnwys chwilio am ffyrdd o atal a thrin clefydau.

Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4
<p data-bbox="147 137 879 287">Gallaf gydnabod patrymau o'm sylwadau ac ymchwiliadau a chyfathrebu fy narganfyddiadau.</p> <p data-bbox="147 322 879 472">Gallaf ddefnyddio fy <i>ngwybodaeth</i> a'm dealltwriaeth i ragweld effeithiau fel rhan o'm hymchwiliad gwyddonol.</p> <p data-bbox="147 508 879 658">Gallaf gydnabod bod yr hyn rwyf yn ei wneud, a'r pethau rwyf yn eu defnyddio, yn gallu cael effaith ar fy amgylchedd ac ar bethau byw.</p> <p data-bbox="147 694 879 843">Gallaf archwilio'r berthynas rhwng pethau byw, eu cynefinoedd a'u <i>cylch bywyd</i>.</p> <p data-bbox="147 1279 580 1386">Gwybodaeth flaenorol Ffocws adnabyddedig</p>	<p data-bbox="914 137 1646 287">Gallaf ddisgrifio sut mae pethau byw yn cystadlu am adnoddau penodol ac yn dibynnu ar ei gilydd i fyw.</p> <p data-bbox="914 322 1646 472">Gallaf ddisgrifio nodweddion organebau a chydabod sut maent yn eu caniatáu i fyw, tyfu ac atgenhedlu er mwyn gallu byw yn eu hamgylchedd.</p> <p data-bbox="914 508 1646 658">Gallaf egluro rôl gwahanol organau a systemau sy'n galluogi planhigion ac anifeiliaid i fyw a thyfu.</p> <p data-bbox="914 808 1646 958">Gallaf ddisgrifio rhai newidiadau mewn twf a datblygiad gaiff eu hachosi gan hormonau.</p> <p data-bbox="914 1036 1646 1186">Gallaf adnabod y bygythiadau i ddatblygiad ac iechyd organebau a chydabod rhai amddiffyniadau, rhwystrau a thriniaethau naturiol.</p>	<p data-bbox="1684 137 2415 287">Gallaf ddisgrifio cyd-ddibyniaeth organebau mewn <i>ecosystemau</i> ac egluro sut mae hyn yn cael effaith ar eu siawns o fyw.</p> <p data-bbox="1684 408 2415 558">Gallaf egluro sut gall atgenhedlu, cellwryiadau a'r amgylchedd arwain at amrywiaeth ac addasiadau o fewn organebau sy'n gallu cael effaith ar eu siawns o fyw.</p> <p data-bbox="1684 736 2415 886">Gallaf ddisgrifio'r lefelau o drefniadaeth gellog a sut mae celloedd yn perfformio prosesau biolegol sy'n sicrhau datblygiad a goroesiad organebau.</p> <p data-bbox="1684 1008 2415 1158">Gallaf egluro'r bygythiadau i ddatblygiad ac iechyd organebau a disgrifio sut mae amddiffyniadau, rhwystrau a thriniaethau naturiol yn lleihau effeithiau'r rhain.</p>

Cam cynnydd 2

Gallaf gydnabod patrymau o'm sylwadau ac ymchwiliadau a chyfathrebu fy narganfyddiadau.

Gallaf ddefnyddio fy *ngwybodaeth* a'm dealltwriaeth i ragweld effeithiau fel rhan o'm hymchwiliad gwyddonol.

Gallaf gydnabod bod yr hyn rwyf yn ei wneud, a'r pethau rwyf yn eu defnyddio, yn gallu cael effaith ar fy amgylchedd ac ar bethau byw.

Gallaf archwilio'r berthynas rhwng pethau byw, eu cynefinoedd a'u *cylch bywyd*.

Cam cynnydd 3

Gallaf ddisgrifio sut mae pethau byw yn cystadlu am adnoddau penodol ac yn dibynnu ar ei gilydd i fyw.

Gallaf ddisgrifio nodweddion organebau a chydabod sut maent yn eu caniatáu i fyw, tyfu ac atgenhedlu er mwyn gallu byw yn eu hamgylchedd.

Gallaf egluro rôl gwahanol organau a systemau sy'n galluogi planhigion ac anifeiliaid i fyw a thyfu.

Gallaf ddisgrifio rhai newidiadau mewn twf a datblygiad gaiff eu hachosi gan hormonau.

Gallaf adnabod y bygythiadau i ddatblygiad ac iechyd organebau a chydabod rhai amddiffyniadau, rhwystrau a thriniaethau naturiol.

- **Datganiad agoriadol**
- **MDaPh**
- **Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**
- **Camau cynnydd**
- **Sgiliau a gwybodaeth**
- Addysgeg
- Cyd-destun lleol
- Llais y disgybl
- Sgiliau cyfannol
- Themâu trawsdoriol
- 4 diben
- Sgiliau trawsgwricwlaidd

Is-gwestiynau

- Beth sydd ei angen ar bobl i fyw?
- **A fyddai angen inni fynd â phlanhigion ac anifeiliaid eraill gyda ni?**
- Ymchwiliad (prawf teg): Beth sydd ei angen ar blanhigion i fyw?
- Pa blanhigion fuasai'r rhai gorau inni eu cymryd gyda ni?
- A fyddai angen inni gynhyrchu meddyginiaethau newydd?
- Pa beryglon iechyd fuasai yn ein hwynebu yno?

Crynodeb o'r prif ystyriaethau:

- Cyd-ddealltwriaeth o ddibenion cynllunio
- Dysgu gaiff ei arwain gan ddiben (nid gan weithgaredd). Dechrau gyda'r cwestiwn PAM?
- Cynllunio ar gyfer y weledigaeth wedi'i arwain gan y 4 diben a'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.
- Sicrhau bod asesu a chynnydd mewn dysgu yn brif ystyriaethau
- Cynllunio profiadau dysgu gwerthfawr i ganiatáu dysgu dyfnach
- Ystyried y cyd-destun lleol – oes modd i bartneriaid yn y gymuned gyfrannu?
- Integreiddio'r Dimensiwn Cymreig
- Sicrhau bod asesu yn hysbyu'r hyn rydych yn ei wneud cyn, yn ystod ac ar ôl
- Cydbwysedd rhwng gwybodaeth a sgiliau
- Sicrhau bod disgyblion yn rhan o'r broses gynllunio

Pethau i'w hosgoi wrth gynllunio

- Defnyddio'r disgrifiadau dysgu er mwyn llywio'r cynllunio
- Defnyddio pynciau presennol a'u haddasu ychydig i gyd-fynd â'r MDaPh a'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig
- Cynnwys pethau lle nad ydyn nhw'n perthyn yn naturiol (sicrhau bod y dysgu yn ddilys a phwrpasol).
- Ailadrodd gweithgareddau tebyg mewn grwpiau blwyddyn gwahanol heb unrhyw gynnydd amlwg
- Rhoi tic yn y bocs yn erbyn yr holl Ddatganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a MDaPh ar ôl edrych arnynt yn arwynebol heb sicrhau dyfnder y dysgu. (Peidiwch â defnyddio'r disgrifiadau dysgu fel rhestr i'w thicio. Cynnydd mewn dysgu, yn hytrach nag edrych yn arwynebol ar gynnwys, sydd wrth wraidd CiG.
- Gosod asesu ar ddiwedd y broses gynllunio.